# Y GRONFA TWF LLEOL
# GRANT CYFALAF BUSNES TWRISTIAETH

# NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR

Mae'r grant Cyfalaf Busnes Twristiaeth yn gynllun o dan y Gronfa Twf Lleol a ariennir gan Lywodraeth y DU, trwy Lywodraeth Cymru, a bydd yn cefnogi busnesau twristiaeth a lletygarwch ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynyddu buddsoddiad cyfalaf i gefnogi cynhyrchiant, twf a chreu swyddi.

## PA SECTORAU BUSNES SY'N GYMWYS

Gall Grant Cyfalaf Busnesau Twristiaeth gefnogi busnesau yn y sectorau canlynol:

- **Yr Economi Sylfaenol Dynol** (Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth)
- **Creadigol**

## PWY SY'N GALLU GWNEUD CAIS

- Mae masnachwyr unigol, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Cwmnïau Cydweithredol a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Menter Gymdeithasol Gofrestredig neu Elusen yn gymwys i wneud cais.
- Busnes sefydledig sydd wedi bod yn masnachu am fwy na 3 blynedd
- Cyfeiriad busnes Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Busnes bach a chanolig (llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan €50 miliwn)
- Rhaid i'r cais gynnwys creu swyddi y disgwylir iddynt bara'n hirach na 12 mis.

Os nad ydych chi'n siŵr o'ch cymhwysedd, cysylltwch â tourism@bridgend.gov.uk i gael cyngor.

Dyfernir y Grant Cyfalaf Busnes Twristiaeth o dan Reolau Cymhorthdal y DU. Rhaid i bob cais hefyd ystyried sut y byddant yn cyflawni yn unol â rheolaeth cymhorthdal yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU.
https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Lle nad yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol bod y prosiect arfaethedig yn cydymffurfio o dan Gyfundrefn Rheoli Cymorthdaliadau'r DU, gellir ei ystyried yn anghymwys, a gellid gwrthod eich cais.

## FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO

Mae'r Grant Cyfalaf Busnes Twristiaeth yn darparu 50% o gostau prosiectau cymwys. Y grant lleiaf yw **£2,500** a'r grant mwyaf sydd ar gael yw **£10,000** (heb gynnwys TAW).

Bydd y grantiau'n cael eu dyfarnu ar sail y cyntaf i'r felin a rhaid cwblhau pob ffurflen a chynnwys y wybodaeth berthnasol.

Rhaid i brosiectau greu cyflogaeth uniongyrchol

## BETH ALLWN NI EI ARIANNU

Gallai enghreifftiau o wariant cyfalaf cymwys gynnwys:

- Offer cyfalaf cysylltiedig â busnes gan gynnwys diogelwch tân
- Offer cyfrifiadurol
- Datblygu gwefannau

- Gwaith adeiladu / gwelliannau bach i adeiladau busnes gan gynnwys gwelliannau cymedrol yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

**Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod ceisiadau'n cael eu gwerthuso fesul achos. Ystyrir uchafswm o 5 eitem fesul cais.**

## BETH ALLWN NI DDIM EI ARIANNU

- Unrhyw gostau a gaiff eu gwario cyn i chi gael cymeradwyaeth ffurfiol
- Unrhyw gostau refeniw
- TAW neu unrhyw drethi eraill
- Taliadau banc / cyllid ac ad-daliadau benthyciadau
- Costau cyfreithiol sy'n cael eu gwneud fel gofyniad statudol
- Costau rhedeg / refeniw rheolaidd neu barhaus (gan gynnwys rhenti, ardrethi, yswiriant, cyflogau,
  rhenti parhaus).
- Ffioedd codwr arian
- Cerbydau
- Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol
- Ailgyllido dyledion drwg o unrhyw fath, neu rwymedigaethau cwmni nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r prosiect
- Costau ceisiadau cynllunio
- Yswiriant
- Paratoi cynlluniau ac astudiaethau, e.e. Cynlluniau Busnes/Astudiaethau Dichonoldeb
- Eitemau stoc neu eitemau nad oes modd eu hailddefnyddio
- Cymorth grant i drydydd parti
- Gwaith a wnaed ar eiddo domestig, naill ai adeilad newydd neu adnewyddu neu estyniadau/ystafelloedd gardd/cabanau pren

Noder, lle mae cyfanswm cost y prosiect yn sylweddol uwch na'r swm grant uchaf sydd ar gael, mae'n annhebygol y caiff ei gymeradwyo.

## SUT I WNEUD CAIS

- Llenwi a llofnodi ffurflen gais
- Dau ddyfynbris tebyg yn ymwneud â phob elfen o wariant cymwys. Y dyfynbris rhataf a ddarperir i bennu swm y grant
- Cynllun busnes
- Rhagolygon llif arian 12 mis a chyfrifon dwy flynedd
- Os oes angen caniatâd cynllunio neu newid defnydd sy'n ymwneud â safle/adeilad masnachol ar gyfer y prosiect, yna rhaid darparu tystiolaeth gymeradwyo cyn y gellir cymeradwyo grant
- Prawf o'r arian sydd ar gael boed mewn cyfrif busnes neu fenthyciad i alluogi prynu 100% cyn hawliad grant
- Rhaid cyflawni prosiectau erbyn mis Mawrth 2027 a rhaid darparu'r holl dystiolaeth gan gynnwys taliadau o fewn yr amserlen hon

Pan fydd ceisiadau cymwys wedi'u cyflwyno'n llawn, ynghyd â thystiolaeth ategol, bydd y canlynol yn cael eu cyflawni:

- Bydd swyddogion yn asesu'r cais ynghyd â gwiriadau diwydrwydd dyladwy a rheoli cymorthdaliadau.
- Bydd adroddiad cryno'n cael ei baratoi ar gyfer Prosiectau Cymwys ar gyfer y Panel Grantiau.
- Bydd y Panel Grantiau'n adolygu'r argymhellion ac yn gwneud cymeradwyaethau.
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Llythyr Cynnig Grant ffurfiol.

**Ni ddylid gwneud unrhyw wariant cyn cymeradwyo grant, gan na ellir dyfarnu'r grantiau'n ôl-weithredol. O dan amgylchiadau arferol, dim ond un cais am gyllid o dan y Gronfa Twf Lleol y byddwn yn ei gefnogi.**

Ni ddylai busnes/cyfarwyddwr(wyr) y busnes fod â buddiant/cyfranddaliadau yn unrhyw un o'r cwmnïau sy'n cyflenwi dyfynbrisiau/amcangyfrifon ar gyfer y cais am grant. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy gwblhau a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn y byddwn yn ei chyhoeddi os bydd eich cais am grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen â'ch prosiect nes eich bod wedi dychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Pe na bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen o fewn y cyfnod a nodir yn y llythyr cynnig, byddai'r grant yn darfod yn awtomatig.

**NI** fydd eitemau a brynir drwy gerdyn credyd/hurbwrcas/cytundebau credyd estynedig/prydlesi cyllid a phryniadau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant. Mae angen gwneud pob pryniant o'r **CYFRIF BANC a restrir ar y ffurflen gais a rhaid iddo fod yn enw'r Busnes neu'r Ymgeisydd.**
Pe bai'r cais yn llwyddiannus, bydd yr arian grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i **GYFRIF BANC** yr Ymgeisydd neu'r Busnes ar ôl derbyn anfonebau a gweld mantolenni banc er mwyn cadarnhau'r taliadau a sicrhau gwaith monitro boddhaol.

Ni fydd grant yn cael ei gynnig na'i dalu os yw'r Busnes neu'r Ymgeisydd mewn dyled gydag unrhyw daliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gwneir gwiriadau yn ôl y gofyn, i'w penderfynu gan eich Swyddog Prosiect.

## RHEOLI CYMORTHDALIADAU

O dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymorthdaliadau yw lle mae awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth
i fusnes sy'n rhoi mantais economaidd iddynt, sy'n golygu na ellid
bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol.

Cynigir cymorth grant a ddarperir gan Grant Datblygu Busnes y Gronfa Twf Lleol o dan Gymorth Ariannol Isafswm (MFA). Mae gan MFA drothwy ariannol sy'n golygu na all unrhyw dderbynnydd dderbyn mwy na £315,000 dros y cyfnod perthnasol o dan adran 36(1) o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Dylid ystyried y canlynol i gyd wrth gyfrifo swm yr MFA y mae eich
busnes wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:

- MFA Arall
- Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- Cymorth a roddir o dan reoliadau Cymorth Gwladwriaethol de minimis yr UE cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 31 Rhagfyr 2020 a
- Cymorthdaliadau a roddir fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE cyn i'r adran hon o'r Ddeddf ddod i rym.

Cadarnhewch yn ysgrifenedig ar y ffurflen gais na fydd y swm y gwneir cais amdano yn fwy na throthwy MFA eich sefydliad o £315,000.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch:- tourism@bridgend.gov.uk

**Mae gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ddisgresiwn llwyr dros delerau, cymhwysedd a gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarniadau Grant Datblygu Busnes Cronfa Twf Lleol ac mae'n cadw'r gallu i ddiwygio meini prawf ar unrhyw adeg.**

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw'r iaith o'ch dewis.

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government